

RhDADB: Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Darpar Benaethiaid



Gwybodaeth a Ffurflen Gais Medi 2019 - Hydref 2020



*Cenhadaeth ein cenedl yng Nghymru yw codi safonau,
gwella cyrhaeddiad ein plant a sicrhau bod gennym
system addysg y gall y genedl fod yn falch ohoni ac y gall y
cyhoedd hyderu ynddi.*

Dyma un o'r amcanion galluogi allweddol:
'Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio
i godi safonau'

Kirsty Williams 2017

Grŵp Targed


Uwch arweinwyr mewn ysgolion Uwchradd, Cynradd ac Arbennig ar draws Gogledd Cymru

Y Safonau Arweinyddiaeth Newydd:

Trosolwg:

O fis Medi 2018, daeth Safonau Arweinyddiaeth newydd LIC yn statudol ar gyfer ysgolion. Bydd y Rhaglen Ddatblygu hon yn mynd i'r afael â'r safonau hyn, ynghyd ag egwyddorion sylfaenol yr ochr ymarferol a theori ar arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol.

Bydd Model Dysgu LIC (MDP) a ddangosir yma yn rhan allweddol o'r Rhaglen.



Bydd y Rhaglen yn para dros flwyddyn ysgol, a bydd tasgau i'w cwblhau rhwng y dyddiau datblygu a'r ymweliadau. Bydd pob aelod yn arwain prosiect ysgol sy'n gorfod dangos effaith a gwelliant mewn safonau dysgu, ymddygiad neu bresenoldeb. Mae chwe diwrnod wyneb i wyneb, yn ogystal ag un diwrnod mewn ysgol wahanol, yn cysgodi pennaeth yr ysgol am ddiwrnod cyfan.

Datblygiad personol:

Insights Discovery.



Bydd pob cynrychiolydd yn cwblhau *Proffil Personol Insights Discovery*. Dadansoddiad proffil ymddygiadol yw hwn, a chynhelir diwrnod llawn yn hyfforddi a datblygu ar gyfer ei roi ar waith gyda chydweithwyr yn ôl yn yr ysgol. Mae'r diwrnod hwn (Diwrnod 2) yn cynnwys:

- Effeithiolrwydd personol
- Gweithio mewn tîm
- Arweinyddiaeth ddewr ac ystyriol
- Newid

'Mae cydweithio a chyfathrebu yn arfau hanfodol ar gyfer y timau gorau. Mae deall eich arddull personol eich hun, a chydabod rhai pobl eraill, yn golygu y gall perthnasau yn y gweithle fod yn gynhyrchiol, nid dinistriol.

Insights Discovery.

Cynulleidfa darged?

Mae'r rhaglen ddatblygu hon ar gyfer y rheiny sy'n uwch arweinwyr ar hyn o bryd yn rhanbarth y Gogledd. Er mwyn cael eu derbyn ar y rhaglen hon, byddem yn awgrymu'r meini prawf a ganlyn i uwch athrawon sydd:

- yn 'ymarferwyr da, yn gyson', o leiaf
- wedi cael amrywiaeth o gyfrifoldebau ym maes arweinyddiaeth a rheolaeth
- naill ai'n Ddirprwy Bennaeth, yn Bennaeth Cynorthwyol, neu'n uwch arweinydd, ac yn aelod o UDA yr ysgol (neu wedi cael secondiad i'r UDA/yn uwch arweinydd cyswllt)
- wedi arwain yn effeithiol ar flaenoriaeth allweddol yng nghynllun datblygu'r ysgol
- â chefnogaeth lawn Pennaeth yr ysgol.

Bydd y rhaglen hon yn defnyddio dull traws-gam a fydd yn galluogi'r aelodau i gyd i ddeall, gwerthfawrogi, rhannu a chydweithio gyda chydweithwyr ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.

Bydd dau grŵp ym mhob iaith; dau grŵp cyfrwng Cymraeg a dau grŵp cyfrwng Saesneg.

Bydd pob grŵp yn cynnwys 16 o ymarferwyr.

Costau/cyllid:

Dim cost i'r dyddiau datblygu (GwE yn ariannu)

- Bydd yr ysgol yn talu costau llanw.
- Bydd yr aelodau yn talu eu costau teithio ac ymchwil.
- Efallai y gall ysgolion ddefnyddio eu grantiau GGA/GDD os yw'r prosiect ysgol yn ymwneud â blaenoriaeth o fewn eu 'cynlluniau'.
- Disgwylir i'r aelodau fynychu pob diwrnod datblygu.

Bydd diwrnodau datblygu yn cynnwys:

- Deallusrwydd Emosiynol
- Gwerthoedd, credoau, gweledigaeth a diwylliant yr ysgol
- Cyfeiriad Strategol; cynllunio gweithredol
- Arwain y dysgu a'r addysgu
- Hyfforddi a mentora
- Arddulliau arweinyddiaeth ac ymddygiadau
- Arwain a rheoli timau effeithiol
- Arwain a rheoli newid
- Eich atebolrwydd eich hun, ac eraill
- Effaith a dylanwad
- Adborth a sgysiau heriol

Gwaith ymchwil presennol

Hefyd, bydd y rhaglen yn sicrhau bod sylw yn cael ei roi i ddogfennau, adroddiadau, gwaith ymchwil, a blaenoriaethau LLC, sy'n gyfredol ac yn berthnasol. Byddwn yn edrych ar amryw o gyhoeddiadau allweddol sy'n canolbwyntio ar feddylfryd o safbwynt arweinyddiaeth effeithiol a llwyddiant.

Er enghraifft, yn ei adroddiad yn 2018, Datblygu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, nododd yr OECD y canfyddiadau allweddol hyn i ysgolion. Dylai ysgolion:

- *Ddatblygu a rhannu gweledigaeth, sy'n ganolog i ddysgu pob disgybl;*
- *Creu a chefnogi cyfleoedd dysgu parhaus i bob aelod o'r staff;*
- *Hyrwyddo dysgu mewn tîm a chydweithio ymhlith pob aelod o'r staff;*
- *Sefydlu diwylliant o ymchwilio, arloesi ac archwilio;*
- *Gwreiddio systemau ar gyfer casglu a chyfnewid gwybodaeth a dysgu;*
- *Dysgu drwy, ac oddi wrth, yr amgylchedd allanol a'r system ehangach;*
- *Modelu a datblygu arweinyddiaeth ym maes dysgu.*

Bydd y Rhaglen Arweinyddiaeth hon yn edrych ar y canfyddiadau hyn, yn eu cysylltu â'r safonau proffesiynol newydd (arweinyddiaeth) ochr yn ochr â strategaethau arwain a rheoli llwyddiannus.

'Ysbrydoli arweinwyr: cyfoethogi bywydau'.

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL) yn canolbwyntio ar arwain dysgu. Felly, er bod llawer o strategaethau arweinyddiaeth a rheolaeth yn generig, bydd y Rhaglen hon yn rhoi y strategaethau a'r theori ar waith mewn cyd-destun addysgol.

Pryd a ble?

Cynhelir dwy garfan ar yr un pryd yn y ddwy iaith. Dau grŵp cyfrwng Cymraeg a dau grŵp cyfrwng Saesneg. Gellir trafod yn anffurfiol ag arweinwyr y Rhaglen cyn gwneud cais:

Os hoffech drafod y rhaglen - cyfrwng Saesneg,
cysylltwch ag Ian Kelly (rhowch rif eich ffôn symudol) iankelly@teachingteachers.co.uk

Os hoffech drafod y rhaglen - cyfrwng Cymraeg,
cysylltwch ag Alun Llwyd (rhowch rif eich ffôn symudol) llwyd.alun@gmail.com

Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Darpar Benaethiaid					
RhDADB: 2019 - 2020					
	Cyfrwng Saesneg			Cymraeg	
	Carfan 5 15 aelod	Carfan 6 15 aelod		Carfan 5 15 aelod	Carfan 6 15 aelod
Diwrnod 1	Dydd Mercher, 25 Medi 2019 Glasdir (Carneddau) Llanrwst.			Dydd Mercher, 25 Medi 2019. Glasdir (Migneint) Llanrwst.	
Diwrnod 2	Dydd Llun, 21 Hyd 2019 Ystafell y Bwrdd, OpTic	Dydd Mawrth 22 Hyd 2019 Yst. Gynadledda OpTic		Dydd Mercher 23 Hyd 2019 Plas Menai	Dydd Iau 24 Hydref 2019 Plas Menai
Diwrnod 3	Dydd Mawrth, 12 Tach 2019 Chweched Dosbarth Glannau Dyfrdwy	Dydd Llun 11 Tach 2019 Chweched Dosbarth Glannau Dyfrdwy		Dydd Mawrth 12 Tach '19 Plas Menai	Dydd Llun 11 Tachwedd 2019 Plas Menai
Diwrnod 4	Dydd Gwener, 7 Chwefror 2020 Lleoliad: Ystafell Gynadledda Optic			Dydd Gwener 7 Chwefror 2020 Lleoliad: Ystafell y Bwrdd, OpTic	
Diwrnod 5	Ymweliadau cysgodi: mewn ysgol			Ymweliadau cysgodi: mewn ysgol	
Diwrnod 6	Dydd Mawrth, 3 Mawrth 2020 Lleoliad: Prif. Glyndwr	Dydd Mercher, 4 Mawrth 2020 Lleoliad: Prif. Glyndwr		Dydd Mawrth, 3 Mawrth 2020 Plas Menai	Dydd Mercher, 4 Mawrth 2020 Plas Menai
Diwrnod 7	Dydd Iau, 1 Hydref 2020 Canolfan Fusnes Conwy			Dydd Iau, 1 Hydref 2020 Canolfan Fusnes Conwy	
Bydd pob diwrnod yn dechrau am 9:00yb ac yn gorffen am 4:00yp. Rhaid i'r aelodau fynychu'r dyddiau i gyd.					

Yn ôl cyn aelodau:

Trefnus, difyr, defnyddiol, llwyddiannus a llawn gwybodaeth. Cefais amser wrth fy modd, a dysgais lawer o'r rhaglen i helpu mi ddatblygu ymhellach yn fy ngyrfa. Mwynheais '*Colourworks*' hefyd.

Bu'r rhaglen yn gyfle arbennig i weithio gydag athrawon eraill, a fydd yn gyfeillion oes i mi, yn ddi-os. Bu'r dysgu a'r datblygu yn broses ddymunol, a buom yn gefn mawr i'n gilydd.

Colourworks yn ddefnyddiol iawn ar gyfer datblygiad personol. Sesiynau ar werthoedd a chredoau a pham ein bod ni eisiau bod yn arweinwyr. Lleoliadau yr un mor hwylus i bawb.

Y cynnwys a'r cyflwyno yn rhagorol. Y cyflwynwyr yn wych: eu gwybodaeth a'u profiad. Rhwydwaith cefnogol a phroffesiynol a fu'n amhrisiadwy, ac sydd wedi helpu i mi fagu hyder fel arweinydd.

Colourworks! Peidiwch â chael gwared ar hyn! Gweithgareddau ymarferol mewn perthynas â hyfforddi, dirprwyo a dylanwadu. Y tasgau grŵp yn erbyn y cloc, oedd yn edrych ar f'arddull arweinyddiaeth fi'n hun. Roedd y naws a greodd yr hwyluswyr o'r diwrnod cyntaf yn cyfrannu'n helaeth at lwyddiant y rhaglen.

Bu'r cwrs yn ysbrydoliaeth fawr i mi, a chefais fudd mawr ohono o'r cychwyn cyntaf. Wedi'i drefnu, ei gyflwyno a'i ddarparu yn dda iawn. Rydw i wedi edrych ymlaen at bob sesiwn, ac wedi gwirioneddol fwynhau cyfarfod â chydweithwyr i rannu profiadau. Mae gonestrwydd y cydweithwyr hyn wrth iddynt ddatgelu pethau am eu hunain wedi bod o fudd.

Roedd mynd fesul pâr i wneud ymweliadau cysgodi (pennaeth ysgol arall) yn fuddiol iawn.

Colourworks yn wych; wedi codi f'ymwybyddiaeth o fy mhersonoliaeth fy hun a'r gwahanol ddulliau y mae angen i mi eu defnyddio wrth weithio gyda staff.

Ar y cyfan, 'dw i wir wedi mwynhau pob diwrnod. Bu'r cyfle i gyfarfod ag eraill a rhannu profiadau yn amhrisiadwy, ond yn bendant, mae'r modd mae'r cyflwynwyr wedi darparu pob diwrnod o'r cwrs hwn wedi bod yn anhygoel. Rydw i wedi dysgu cymaint, a hefyd cymaint am fy hun ar hyd y ffordd.

Amrywiaeth y tasgau i ddatblygu gwahanol agweddau ar f'arweinyddiaeth. Siaradwyr gwadd da. Ymweliad cysgodi yn fuddiol iawn. 'Rhai testunau ac erthyglau gwych i'w darllen, i'w hastudio a'u trafod.

Yr adnoddau a pha mor drefnus oedd y cwrs, rhagorol. Gwnaeth yr hwyluswyr i ni deimlo'n bwysig yn ystod y dyddiau, a bu'n therapi da. Amrywiaeth eang y tasgau. Gwthio'n hun i feddwl a myfyrio. Ffyrdd unigryw i ddisgrifio'ch hun yn ffordd hynod bwerus a da i ddod i 'nabod pobl.

Yr ymweliad cysgodi yn wych, dilyn y pennaeth am ddiwrnod cyfan. Anhygoel cymaint a ddysgais mewn diwrnod! Braf clywed profiadau'r Penaethiaid eraill oedd yn cyflwyno. Diolch.

Cais ar gyfer Carfan 5 neu Garfan 6

(dilêwch y garfan nad ydych yn dymuno cael eich hystyried amdano os gwelwch yn dda)

Enw'r ymgeisydd		
Ysgol yr ymgeisydd a manylion cyswllt		
Cyfeiriad e-bost yr ymgeisydd		
Rhif ffôn symudol yr ymgeisydd		
Nifer o flynyddoedd yn addysgu		
Rhaglenni arweinyddiaeth blaenorol a gyflawnwyd - dyddiadau. Enwch y darparwr		
Rôl/cyfrifoldebau presennol:		
Pam eich bod yn dymuno cymryd rhan yn y rhaglen ddatblygu arweinyddiaeth hon? 250 gair		
Llofnod yr ymgeisydd (electronig)		Dyddiad:
Enw mentor arweinyddiaeth yr ysgol		
Enw Pennaeth yr ysgol		
Llofnod Pennaeth, neu Ddirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol		Dyddiad:
Dychwelwch i:	cerisiankenrick@GWEgogledd.Cymru	
Unrhyw ofynion dietegol arbennig. Unrhyw anableddau rydych yn dymuno dweud wrthym amdanynt?		
Erbyn:	Canol dydd, 30 Mehefin 2019	
Mae uwch dîm rheoli a llywodraethwyr yr ysgol hon yn cefnogi'r cais hwn yn llawn, ac yn ymrwymo i fynd ati'n weithredol i sicrhau'r cyfleoedd angenrheidiol a fydd yn galluogi'r ymgeisydd i gyflawni'r tasgau dan sylw. Bydd yr ysgol yn penodi aelod o'r UDA fel mentor i'r ymgeisydd yn yr ysgol. Disgwylir i'r ymgeisydd fynychu pob diwrnod datblygu.		